COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD O BELL - TRWY MICROSOFT TEAMS DYDD MERCHER, 9 CHWEFROR 2022, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell | MC Clarke |
| N Clarke | RJ Collins | HJ David | C Davies |
| P Davies | PA Davies | SK Dendy | DK Edwards |
| J Gebbie | RM Granville | CA Green | DG Howells |
| M Hughes | RM James | B Jones | M Jones |
| MJ Kearn | DRW Lewis | JE Lewis | JR McCarthy |
| D Patel | RL Penhale-Thomas | AA Pucella | KL Rowlands |
| B Sedgebeer | RMI Shaw | CE Smith | RME Stirman |
| G Thomas | T Thomas | KJ Watts | A Williams |
| AJ Williams | HM Williams | JE Williams | RE Young |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

NA Burnett, A Hussain, SG Smith, JH Tildesley MBE, E Venables, SR Vidal, MC Voisey, LM Walters a/ac CA Webster

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro |
| Mark Galvin | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Dros dro |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

628. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Prif Weithredwr, M Shephard, fuddiant sy’n rhagfarnu yn eitem 6 ar yr Agenda, yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Canlyniadau'r Cyngor. Gadawodd y cyfarfod pan oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

629. I DDERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Mae Gwobrau Dinasyddiaeth y Maer bellach wedi dod i ben, ac ar ôl derbyn dros 30 o enwebiadau penderfynwyd gwobrwyo 22 ohonynt. Bu safon yr holl enwebiadau yn uchel iawn unwaith eto, ac er bod pob un yn haeddu cydnabyddiaeth, mae rhai yn sgorio'n uwch nag eraill. Fodd bynnag, bydd pawb a gyflwynodd enwebiadau yn derbyn llythyr o ddiolch am gymryd rhan yn y broses, ac i’w hannog i wneud enwebiad arall y flwyddyn nesaf.

Rydym bellach yn trefnu sut i gyflwyno’r gwobrau, a bydd naill ai ymweliad personol gen i neu gyflwyniad ym Mharlwr y Maer, yn amodol ar yr asesiadau risg priodol a fydd wedi’u cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth. Hoffwn ddiolch i'r swyddogion a’r Dirprwy Faer am eu cymorth yn y broses, ac am nodi fy sylwadau mewn perthynas â diwygiadau posibl i'r cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Dirprwy Arweinydd

Gan fod Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau yn cael ei chynnal yr wythnos hon, rwyf am roi diweddariad byr iawn i'r aelodau ar sut mae cynllun prentisiaeth y Cyngor ei hun yn dod yn ei flaen.

Ers ei lansio yn 2013 rydym wedi cefnogi 116 o brentisiaid, ac mae llawer ohonynt wedi mynd ymlaen i weithio gyda'r cyngor yn llawn amser.

Ar hyn o bryd mae gennym 27 o brentisiaid yn gweithio ar draws ystod o adrannau, o gymorth busnes a marchnata i ofal cymdeithasol a chaffael, ac maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr.

Mae'r cynllun prentisio yn ein galluogi ni, fel awdurdod lleol, i recriwtio talent newydd. Mae'n galluogi pobl i ddatblygu sgiliau proffesiynol ac i ennill profiad gwerthfawr, a hynny wrth ennill cyflog a gweithio tuag at gymhwyster achrededig.

Efallai bydd yr Aelodau yn awyddus i ddweud wrth etholwyr am ein rhaglen brentisiaid, a'u cynghori i chwilio tudalennau swyddi'r wefan gorfforaethol am gyfleoedd yn y dyfodol.

Hoffwn ddiolch hefyd i'n holl brentisiaid am eu gwaith caled, yn enwedig yn ystod amgylchiadau anodd y ddwy flynedd ddiwethaf, ac i ddymuno pob lwc iddynt gyda'u gyrfaoedd.

Aelod Cabinet – Cymunedau

Rwy'n siŵr y bydd cynghorwyr yn ymwybodol o'r problemau a achosir gan ffyrdd heb eu mabwysiadu o fewn y fwrdeistref sirol.

Dyma’r strydoedd nad yw’r Cyngor wedi'u mabwysiadu, lle mae'r preswylwyr a’r perchnogion yn parhau i fod yn gyfrifol am y gwaith o gynnal a chadw.

Mae cynllun peilot newydd gan Lywodraeth Cymru wedi darparu £230,000 i wella stryd heb ei mabwysiadu leol fel ei bod yn cyrraedd safon lle gallai’r cyngor gymryd cyfrifoldeb.

Bwriad y cynllun yw gwella dealltwriaeth cynghorau a Llywodraeth Cymru o’r goblygiadau o ran cost o fynd i'r afael â'r ôl-groniad hanesyddol o strydoedd o'r fath ledled Cymru. Dewiswyd Ynyslas ym Mhorthcawl yn seiliedig ar ffactorau megis cyflwr gwael ei phalmentydd a'r ffordd goncrid, a nifer yr eiddo y mae'n eu gwasanaethu.

Erbyn hyn, mae’r llwybrau troed a’r lôn wedi'u hailadeiladu, mae draeniad y priffyrdd wedi'i atgyweirio ac mae gwaith pellach yn cael ei wneud i sicrhau bod Ynyslas yn addas i'w mabwysiadu.

Rydym wedi cael rhai sylwadau cadarnhaol iawn o ran y gwaith gan ddeiliaid tai, ac mae wedi bod yn llwyddiant mawr.

Mae adolygiad o strydoedd eraill heb eu mabwysiadu ar y gweill, ac rydym yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ar y cynllun.

Gobeithio y bydd hyn yn arwain at sicrhau bod rhagor o arian ar gael a fydd yn ein galluogi i dargedu rhagor o strydoedd heb eu mabwysiadu yn y fwrdeistref sirol, a gobeithiaf ddod â mwy o newyddion ichi am hyn yn fuan.

Aelod Cabinet – Gwasanaeth Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Efallai fod yr Aelodau wedi gweld y cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn dweud eu bod am gynyddu faint o gymorth sydd ar gael trwy ei chronfa cymorth i aelwydydd.

Mae wedi'i gynllunio i helpu cymunedau i ymdopi â'r cynnydd enfawr mewn biliau ynni, ac mae'r taliad rhyddhad o £100 bellach wedi'i gynyddu i £200.

Mae ar gael i aelwydydd lle mae rhywun yn hawlio buddion cyffredinol, cymhorthdal incwm, credydau treth gwaith, budd-daliadau lles sy'n seiliedig ar brawf modd, lwfans ceisio gwaith sy'n gysylltiedig ag incwm, neu lwfans cyflogaeth a chymorth.

Afraid dweud, gobeithiaf fod pob aelod yn rhoi cyhoeddusrwydd i hyn yn eu wardiau lleol ac yn annog pob aelwyd gymwys i wneud cais.

Mae'r cyngor eisoes wedi cysylltu â miloedd o bobl yr ydym yn credu sydd â hawl i dderbyn y taliad, a gellir gwneud ceisiadau ar-lein drwy gyfleuster 'Fy Nghyfrif' y cyngor hefyd.

28 Chwefror yw'r dyddiad cau i wneud cais, ac ni fydd angen i'r rhai sydd eisoes wedi derbyn taliad o £100 o dan y cynllun wneud cais eto gan y byddant yn derbyn y gweddill yn awtomatig o fewn yr wythnosau nesaf.

Ni ddylai neb fod heb gynhesrwydd a gwres dros y gaeaf, a gobeithiwn y bydd hyn yn cefnogi rhai o drigolion tlotaf a mwyaf agored i niwed Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Aelod Cabinet – Cenedlaethau'r Dyfodol a Lles

Mae rhaglen seibiant byr newydd ar gael i ofalwyr di-dâl lleol ac efallai bydd aelodau yn awyddus i roi gwybod i'w hetholwyr.

Mae'r rhaglen, a lansiwyd mewn partneriaeth ag Halo Leisure, BAVO, y Cyngor a Llywodraeth Cymru, yn galluogi gofalwyr i gael mynediad at ystod eang o gyfleusterau yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr yn rhad ac am ddim bob dydd Mawrth rhwng 2pm a 4pm.

Gyda chyfleusterau fel ystafell stêm, sawna ac ystafell iâ, gwelyau lolfa wedi'u gwresogi ac ystafell hoenuso, gall gofalwyr fanteisio i'r eithaf ar therapïau ymlacio arbenigol a chyngor ar ddiet a maeth.

Yn bwysicaf oll, mae'r rhaglen yn cynnwys darpariaeth ofal ychwanegol gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru i alluogi gofalwyr di-dâl i gymryd seibiant o'u cyfrifoldebau gofalu.

Os yw aelodau'n gwybod am ofalwyr di-dâl yn eu wardiau a fyddai'n elwa o'r fenter rad ac am ddim hon, gofynnwch iddynt gysylltu â Chanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr a gofyn am y swyddog Cymorth Cymunedau gweithredol.

Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywio

Mae arolygwyr Estyn wedi ymweld â rhai o'n hysgolion lleol yn ddiweddar, a hoffwn dynnu sylw'r aelodau at y canlyniadau.

Yn sgil ymweliadau ym mis Tachwedd 2021, barnwyd bod Ysgol Gynradd Plasnewydd ac Ysgol Gynradd Cwm Ogwr wedi gwneud cynnydd digonol yn erbyn argymhellion yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant fel y gellid eu tynnu o fesurau arbennig yn ffurfiol.

Mae Ysgol Gynradd Cefn Cribwr hefyd wedi'i thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen eu hadolygu gan Estyn gan eu bod wedi gwneud cynnydd priodol o ran gweithredu materion allweddol.

Yn dilyn arolygiad a gynhaliwyd ychydig cyn y Nadolig, mae arolygwyr wedi cadarnhau bod yr ysgol wedi datblygu digon o gapasiti i sicrhau gwelliannau pellach.

Adolygwyd Ysgol Uwchradd Gatholig Archbishop McGrath hefyd ym mis Rhagfyr. Mae arolygwyr wedi nodi bod cynnydd da wedi'i wneud a'u bod yn parhau i fonitro'r ysgol am y tro er mwyn sicrhau y gall hyn barhau.

Mae pob ysgol leol arall wedi'u dyfarnu naill ai'n dda neu'n foddhaol, a hoffwn longyfarch athrawon a staff am eu hymdrechion parhaus.

630. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD

Roeddem yn falch o gadarnhau ddoe ein bod yn cefnogi dychweliad yr Uwch Bencampwriaeth Golff Agored i Glwb Brenhinol Porthcawl yn 2023.

Dyma'r unig bencampwriaeth golffwyr hŷn fawr yn Ewrop, ac mae'n ddigwyddiad pwysig sy'n dod â manteision parhaol i dwristiaeth a'r economi leol.

Pan wnaethom ei gynnal am y tro cyntaf yn 2014, ymwelodd dros 43,000 o bobl â'r fwrdeistref sirol ac fe'i hystyriwyd yn llwyddiant a gynhyrchodd filiynau o bunnoedd i'r economi leol, gan ddenu cynulleidfa deledu ryngwladol gyda miliynau o wylwyr ledled y byd. Edrychwn ymlaen at ddod â diweddariadau i chi wrth i'r cynlluniau ddatblygu.

Mae datblygiad mawr arall ym maes twristiaeth ranbarthol gam yn nes at gael ei wireddu hefyd, yn sgil rhoi caniatâd cynllunio amodol i brosiect trawsnewidiol Cwm Afan yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Mae'r datblygiad newydd trawiadol yn rhan o frand Wildfox Resorts ac mae wedi cael ei ddisgrifio fel safle gwyliau a hamdden hunangynhwysol, tebyg i Centre Parks yn y cymoedd.

Efallai y bydd yr Aelodau'n cofio i'r prosiect gael ei grybwyll gyntaf gan ymgeiswyr Afan Valley Cyf. Fodd bynnag, ers hynny mae'r Grŵp Salamanca aml-genedlaethol, sydd â hanes o 20 mlynedd o ddatblygiadau llwyddiannus, wedi cymryd yr awenau, ac maent yn gyrru'r cynlluniau ymlaen yn gyflym.

Gallai greu cannoedd o swyddi newydd a darparu manteision cymdeithasol ac economaidd sylweddol, rhai a allai ddod â budd i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr hefyd. Yr wyf wedi gofyn am ddiweddariad manwl, a phan ddarperir hynny fe'i rhannaf gydag aelodau.

Yn olaf, mae'r cynlluniau ar gyfer sut y bydd safle hen ffatri peiriannau Ford yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol yn prysur gyflymu.

Mae swyddogion y Cyngor wedi bod yn gweithio'n agos ochr yn ochr â Chwmni Moduron Ford a'r arbenigwyr eiddo tirol a buddsoddi masnachol, CBRE.

Disgwylir y bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddiweddarach y mis hwn pan fyddwn yn trafod cynlluniau ar gyfer ailddatblygiad arfaethedig y safle, yr amserlenni, y cyfleoedd marchnata a mwy.

Y bwriad yw galluogi'r safle i gael ei gyflwyno i'r farchnad o fewn chwarter cyntaf 2022.

Fel y gŵyr yr aelodau, roedd y gwaith moduron yn gyflogwr mawr yn Ne Cymru cyn iddo gau, ac mae'r safle 1.6 miliwn troedfedd sgwâr yn parhau i fod yn ddarn o dir sy'n fasnachol werthfawr.

Mae Ford a CBRE yn dweud wrthym ei fod yn denu diddordeb cryf, gydag o leiaf un cleient posibl eisoes wedi dangos diddordeb ym meddiannu'r safle.

Dylem wybod mwy ar ôl i'r cyfarfod gael ei gynnal, a byddaf, wrth gwrs, yn dod â newyddion pellach i chi wrth i'r sefyllfa hon ddatblygu.

631. CYNLLUN PEILOT PLEIDLEISIO YMLAEN LLAW YN ETHOLIADAU LLEOL MAI 2022

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gymryd rhan yn y cynlluniau peilot Pleidleisio o Flaen Llaw, cynllun a fyddai'n caniatáu pleidleisio ar y dydd Mawrth a dydd Mercher cyn y Diwrnod Pleidleisio ar ddydd Iau 5 Mai 2022 mewn rhai Gorsafoedd Pleidleisio yn ystod Etholiadau Lleol Mai 2022.

Ar ôl ymgynghori ag arweinwyr grwpiau, dywedodd ei fod wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru fod gan Ben-y-bont ar Ogwr ddiddordeb mewn sefydlu cynllun peilot Pleidleisio Ymlaen Llaw, gan agor gorsafoedd pleidleisio mewn wardiau penodol ar y dydd Mawrth a dydd Mercher cyn y diwrnod pleidleisio, yn ogystal â chynllun peilot ar wahân wedi'i leoli mewn ysgol ar gyfer disgyblion cymwys yr ysgol honno yn unig.

Roedd angen penderfyniad yn awr ynghylch a ddylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fwrw ymlaen â'r cynllun peilot pleidleisio ymlaen llaw.

Rhestrir y wardiau a ddewiswyd ar gyfer y cynllun peilot isod, gan ddefnyddio'r enwau newydd a ddefnyddir o fis Mai 2022, a chydag enwau'r wardiau fel y maent yn awr mewn cromfachau: -

- Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf [Bracla, Llangrallo Isaf]
- Canol Dwyrain Bracla [Bracla]
- Gorllewin Brackla [Bracla]
- Canol Gorllewin Bracla [Bracla]
- Corneli [Corneli]
- Y Pîl, Mynydd Cynffig a Chefn Cribwr [Y Pîl, Cefn Cribwr]
- St Bride's Minor ac Ynysawdre [Bryncethin, Bryncoch, Sarn ac Ynysawdre]

Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod y wardiau peilot gwreiddiol wedi'u dewis yn seiliedig ar gyfraddau pleidleisio Etholiadau Lleol 2017, a oedd yn nodi'r 5 ward gyda'r cyfraddau pleidleisio isaf yn gyffredinol a'r cyfraddau pleidleisio isaf mewn gorsafoedd pleidleisio. Mae'r tabl ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad yn dangos y nifer a bleidleisiodd a'r safle'r ward ar y rhestr.

Ychwanegodd bod tair ward ychwanegol o Etholiadau Lleol yn 2017 wedi'u hychwanegu at y peilot, a hynny oherwydd adolygiad y Comisiwn Ffiniau sydd wedi eu cyfuno â'r wardiau a nodwyd ar gyfer y peilot. Y wardiau hyn yw Cefn Cribwr, Llangrallo Isaf ac Ynysawdre.

Ar wahân i hyn, gan fod Ysgol Gyfun Cynffig yn rhan o gynllun peilot ar wahân ar gyfer disgyblion cymwys yn yr ysgol honno yn unig, ychwanegwyd ward Corneli at y peilot gan fod dalgylch Ysgol Gyfun Cynffig bron yn gyfan gwbl o fewn ffiniau'r Pîl, Cefn Cribwr, a Chorneli, a byddai mwyafrif y disgyblion sy'n gymwys i bleidleisio yn cael eu cynnwys.

Daeth y Prif Weithredwr i'r casgliad drwy gadarnhau y bydd 20 o orsafoedd pleidleisio ar agor rhwng 7am a 9pm ar draws y saith ward beilot ar y dydd Mawrth a'r dydd Mercher, gan roi dewis o 3 diwrnod i'r etholwyr fwrw eu pleidleisiau. Yn Ysgol Gyfun Cynffig, byddai 2 orsaf bleidleisio ar agor ar y dydd Mawrth rhwng 8.30am a 4.30pm ar gyfer y myfyrwyr cofrestredig 16+ yn unig. Bydd hyn yn caniatáu iddynt bleidleisio mewn amgylchedd cyfforddus a bydd yn meithrin yr arfer o bleidleisio, er y gallent ddewis pleidleisio yn un o'r gorsafoedd pleidleisio ward peilot pe dymunent.

Croesawodd yr Arweinydd yr adroddiad a'r Peilot a'r ffordd y byddai'r newidiadau a gynigiwyd yn cyd-fynd â'r newidiadau mewn cymdeithas sydd wedi esblygu dros y blynyddoedd, a'i bod yn galonogol gweld y byddai pobl 16 ac 17 oed yn gallu pleidleisio yn yr Etholiadau. Gobeithiai y byddai'r Peilot yn annog rhagor o bobl i bleidleisio.

PENDERFYNIAD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo cymryd rhan yn y cynllun peilot Pleidleisio Ymlaen Llaw, fel y nodir yn yr adroddiad.

632. FFIOEDD ETHOLIADAU LLEOL - CYNGOR BWRDEISTREF SIROL A CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad ar ran y Prif Weithredwr gyda'r bwriad o geisio cymeradwyaeth y Cyngor i'r ffioedd etholiadol y bwriedir eu cymhwyso yn etholiad y Fwrdeistref Sirol ac etholiad y Cynghorau Tref a Chymuned o fis Mai 2022, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

I roi rhywfaint o gefndir, yn unol ag arfer sefydledig, mae cyllid yn cael ei neilltuo ar gyfer yr etholiadau lleol ac mae cronfa wrth gefn ar gael ar hyn o bryd i dalu costau etholiadau'r Fwrdeistref Sirol ym mis Mai 2022.

Eglurodd y Swyddog Monitro fod y costau gweinyddu ychwanegol yn anodd eu hasesu cyn ei bo'n hysbys sawl etholiad y bydd mwy nag un ymgeisydd, gan fod hyn yn cael effaith sylweddol ar lwyth gwaith y tîm Gwasanaethau Etholiadol.

Mae taliadau ychwanegol i Staff Etholiadol yn ystod yr etholiadau mawr diweddar wedi amrywio o £2,000 i £4,000, yn dibynnu ar rolau a chyfrifoldebau penodol. Cynigir felly y dylid rhoi pwerau penodol i'r Swyddog Canlyniadau bennu lefel y taliadau ar gyfer gwaith gweinyddol ychwanegol unwaith y bydd yr etholiad wedi'i gwblhau.

Cyfeiriodd Aelod at Atodiad 1 yr adroddiad ac at y ffi ar gyfer Clercod Pleidleisio, a osodwyd yn £150. Teimlai fod hyn yn eithaf isel am 15 awr o waith.

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod rhywfaint o ddisgresiwn o ran pennu'r ffioedd amrywiol, fodd bynnag, cadarnhaodd y byddai'r Rheolwr Etholiadol wedi cymharu ag awdurdodau cyfagos eraill wrth bennu ffioedd yr etholiad. Fodd bynnag, byddai'n gofyn iddo gysylltu â'r Aelod y tu allan i'r cyfarfod ynglŷn â'r pwynt hwn.

PENDERFYNIAD: Bod y Cyngor:

(1) Yn cymeradwyo'r rhestr ffioedd a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad

(2) Yn rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Canlyniadau i bennu lefel y taliadau ar gyfer gwaith gweinyddol ychwanegol mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151.

633. Y DIWEDDARAF AM Y RHAGLEN GYFALAF

Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ar raglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2021-22 i 2030-31 (Atodiad A i'r adroddiad y cyfeiriwyd ato).

Adroddodd fod y Cyngor, ar 24 Chwefror 2021, wedi cymeradwyo Strategaeth Gyfalaf a oedd yn ymgorffori'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2021-22, ynghyd â rhaglen gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 2020-21 a 2030-31 fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS). Roedd y rhaglen gyfalaf wedi'i diweddaru yn ystod y flwyddyn gyda chynlluniau newydd, diwygiadau i becynnau ariannu presennol a newidiadau i broffiliau cyflenwi. Roedd dyfarniadau grant newydd, canlyniadau prosesau tendro a diweddariadau ar gynlluniau presennol sydd angen eu cynnwys wedi digwydd ers i'r rhaglen gael ei chymeradwyo ddiwethaf gan y Cyngor ar 19 Ionawr 2022.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid y bydd rhaglen gyfalaf ar gyfer y cyfnod 2021-22 hyd 2031-2032 yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor ar 22 a 23 Chwefror 2022, fel rhan o Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2022-23 i 2025-26, ochr yn ochr â'r Strategaeth Gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2022-23 i 2031-32. Dywedodd fod sawl ffynhonnell o bwysau ariannol wedi codi o ganlyniad i amodau cyfredol y farchnad a'u bod wedi'u heffeithio gan y pandemig a Brexit.

Adroddodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid fod y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2021-22 i 2030-31 a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Ionawr 2002 yn £212.439m, a bod £118.094m o'r swm yn cael ei dalu o adnoddau'r Cyngor, gan gynnwys derbyniadau cyfalaf, cyfraniadau refeniw o gronfeydd wrth gefn a benthyca, gyda'r £94.345m sy'n weddill yn dod o adnoddau allanol, gan gynnwys Grant Cyfalaf Cyffredinol. Dywedodd wrth yr Aelodau fod bellach angen cynnwys y cynlluniau newydd canlynol yn y rhaglen gyfalaf, y mae rhai ohonynt yn cael eu hariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan grantiau, ac eraill sydd angen eu diwygio:-

- Fflyd Di-garbon Net
- Metro Plus Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Ystâd Ddiwydiannol Heol Ewenni
- Adfywio Porthcawl
- Hyb Plant Brynmenyn
- Rhaglen Diogelwch Ynni Cymunedol / Arbed Cam 1
- Offer TGCh – Ysgolion
- Cynllun Peilot Ffyrdd Heb eu Mabwysiadu Llywodraeth Cymru
- Llety Ychwanegol Ysgol Arbennig Heronsbridge

Roedd nifer fach o welliannau a newidiadau eraill hefyd i'r cymeradwyaethau grant, ac maent wedi'u hadlewyrchu yn y rhaglen gyfalaf sydd wedi'i diweddaru.

Daeth y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid i'r casgliad drwy gynghori bod y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig, sy'n ymgorffori'r cynlluniau a amlinellir uchod ac sy'n cael ei drafod mewn mwy o fanylder yn yr adroddiad, wedi'i nodi yn Atodiad A yr adroddiad.

Cyfeiriodd Aelod at y gwaith a wnaed yn Ystâd Ddiwydiannol Heol Ewenni a'r dyraniad cyllid o £3.5m tuag ato o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a gobeithiai bod rhai ffactorau allanol wedi derbyn sylw ac y byddai'r gwaith cywiro adeiladau a seilwaith ar y safle yn parhau yn unol â'r amserlen, a hynny rhag rhwystro cynnydd y gwaith datblygu canlynol sydd wedi'i gynllunio.

Hefyd, mynegodd ei siom o ran Prosiect Arbed a'r gwaith blaenorol a wnaed. Felly, roedd yn gobeithio y byddai trigolion yr ardal yn ogystal ag Aelodau’r Wardiau lleol yn cael gwybod am gynnydd y gwaith cywiro, gan gynnwys y rhaglen Gaffael, y deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer y gwaith ac ati, fel bod y prosiect yn dryloyw ac ar gael i graffu yn ystod oes (y prosiect).

O ran Heol Ewenni, cadarnhaodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid y bydd cynnydd y cynllun hwn yn cael ei fonitro, gan gynnwys unrhyw risgiau o ran costau ac amserlenni pob cam o'r gwaith angenrheidiol. Bydd holl gynlluniau'r Rhaglen Gyfalaf yn cael eu monitro am yr un rhesymau ac er mwyn sicrhau'r holl wahanol ffynonellau ariannu a ddyrennir i'r rhain. Byddai unrhyw oedi neu lithriadau o ran y prosiectau a'r cynlluniau yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor er gwybodaeth i'r Aelodau.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi rhoi eglurhad yng nghyfarfod y Cabinet ddoe ar y broses i'w dilyn mewn perthynas â'r Cynllun Arbed. Yn dilyn cyflwyniad achos busnes i Lywodraeth Cymru, a’i gymeradwyaeth gobeithio, byddai gwaith yn mynd rhagddo i ymgysylltu â thrigolion lleol ac Aelodau lleol ynghylch y gwaith sydd i'w wneud, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer y rhain. Byddai cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf heddiw yn caniatáu i gyllid angenrheidiol y Cyngor gael ei gynnwys yn yr achos busnes.
Cyfeiriodd Aelod at waith Metro Plus Porthcawl a oedd ag amcangyfrif cost gychwynnol o £400k. Fodd bynnag, roedd hyn bellach wedi'i addasu i £2m oherwydd bod adeilad mwy sylweddol wedi'i gynnig. Roedd Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod pibell prif gyflenwad fertigol yn y man a gynigwyd ar gyfer y terminal bysiau. Gofynnodd a oedd y gwaith sy'n ofynnol o ran hyn wedi'i gynnwys yn yr amcangyfrif cyffredinol diwygiedig ar gyfer y cynllun, a pham nad oedd y Cyngor yn ymwybodol o'r bibell hon o'r blaen.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau fod ymchwiliad safle wedi'i gynnal i ddechrau, cyn i'r gwaith a gynigiwyd gael ei gynllunio, felly roedd y Cyngor yn ymwybodol o'r bibell yn flaenorol. Trafodwyd hyn gyda Dŵr Cymru, a chytunwyd y byddai lloches y Metro Link yn cael ei symud ychydig fetrau i mewn i’r safle er mwyn peidio ag ymyrryd â'r prif gyflenwad. Nid oedd y costau ychwanegol o ganlyniad i symud y loches, ond oherwydd uwchraddio ac i wneud gwaith pellach i wneud y cyfleuster yn well ac yn fwy ecogyfeillgar, a fydd yn ei dro yn rhoi mwy o fudd i'r dref na'r un a gynlluniwyd yn wreiddiol. Byddai'r £2m yn cynnwys y gost o symud y lloches oddi wrth y bibell prif gyflenwad.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau y byddai £1m hefyd yn cael ei ymrwymo i Gynllun Penprisk, ac yn y Pîl bydd ymrwymiad yn cael ei wneud i adleoli'r Orsaf Reilffordd yn unol â darpariaeth y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd.

Gofynnodd Aelod a fyddai unrhyw breswylwyr sydd wedi’u heffeithio gan y Prosiect Arbed yn cael eu had-dalu yn ariannol os ydynt wedi talu eu hunain i gywiro’r gwaith anfoddhaol a wnaed rai blynyddoedd yn ôl.

Roedd y Prif Weithredwr, er ei bod yn gresynu'n fawr wrth sefyllfa’r preswylwyr yng Nghaerau a effeithiwyd gan fethiant y gwaith inswleiddio waliau blaenorol, a chan bwysleisio ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am eu rhan yn hyn, yn dymuno pwysleisio nad oedd y Cyngor wedi bod yn rhan o fwyafrif helaeth y gwaith a wnaed yn yr eiddo. Nid fu’r Cyngor yn rhan o’r gwaith insiwleiddio waliau a wnaed mewn 79 o'r 104 eiddo sydd bellach yn gymwys ar gyfer y cynllun arfaethedig.  Ni allai roi ymateb cywir i'r cwestiwn o ad-dalu ar hyn o bryd, gan nad oedd yr Awdurdod wedi cyflwyno'r Achos Busnes eto. Fodd bynnag, pwysleisiodd y byddai Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith yn debygol o ddod o'r Gronfa Effeithlonrwydd Ynni, a fyddai'n debygol o ganolbwyntio ar dynnu’r hen gladin a ddarparwyd 10 mlynedd yn ôl a gosod cladin newydd.

Nododd Aelod fod ymrwymiadau amser o ran y gwaith o gyflawni'r Cynllun Metro Plus, ac felly roedd yn hanfodol bod y cynllun yn cael ei gwblhau'n brydlon er mwyn defnyddio’r cyllid a ddyrannwyd ar ei gyfer gan y Cyngor. Nododd fod angen gwneud cais i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd erbyn mis Mehefin eleni. Nododd hefyd fod yr ymgynghoriad cyhoeddus ond newydd gael ei gwblhau, felly gofynnodd a oedd y dyddiad targed uchod yn rhy uchelgeisiol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau fod y Cyngor yn gwneud cais i'r Gronfa Codi’r Gwastad am gyllid ar gyfer prosiect Pont Pencoed. Er ein bod yn gweithio tuag at wneud cais erbyn mis Mehefin 2022, gallai’r dyddiad cyflwyno newid. Roedd y Cyngor yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad ar hyn o bryd ac yn gweithio gyda Network Rail ar ddyluniad y bont. Yna byddai'r cais yn cael ei gyflwyno tua mis Mai/Mehefin. Ni fydd y gwaith dylunio wedi’i gwblhau erbyn i'r cais gael ei gyflwyno, ond nid oedd hyn yn angenrheidiol o ran y cynllun yn gyffredinol. Roedd y cynllun yn sylweddol o ran ei faint ac o ran y gwaith seilwaith sydd ei angen, felly ni fyddai'n cael ei gwblhau o fewn amserlenni'r Cais/Grant Codi’r Gwastad.

O ran Arbed, nododd Aelod y gofynnwyd am £855k yn y rhaglen gyfalaf gan y Cyngor, ar dudalen 19 y pecyn adroddiad, ac y byddai cyflawni'r prosiect, gan gynnwys y cynigion tendro a chaffael, yn cymryd tua 2 flynedd. Gofynnodd felly pam yr oedd y £855k yn cael ei lwytho ymlaen llaw eleni, yn hytrach na chael ei rannu dros eleni a'r flwyddyn nesaf i gyd-fynd ag amcangyfrif oes holl waith y prosiect. Gofynnodd hefyd, a fyddai’r prosiect angen mwy o arian pan fydd y gwaith yn mynd rhagddo, ac o ran y cais am gyllid trwy Gynllun Eco Llywodraeth y DU, a yw’n debygol o gael ei sicrhau ac, os felly, faint fyddai hyn.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn cytuno y gallai’r dyraniad o £855k fod angen ei adolygu unwaith y bydd yr achos busnes wedi'i gymeradwyo, gan y gallai’r angen am arian fod yn llai yn y flwyddyn gyntaf oherwydd ei bod yn anochel y byddai llawer o'r flwyddyn yn cael ei dreulio ar y cynllun ymgysylltu, yn arolygu'r cartrefi ac yn caffael contractwyr arbenigol. Nid oedd yn hysbys ar hyn o bryd a fyddai Llywodraeth y DU yn darparu unrhyw gyllid ond mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wthio hyn yn galed gan fod y Cynllun Arbed Ynni Cymunedol [ CESP ] yn rhaglen a noddir gan Lywodraeth y DU ac roedd y gwaith yn y rhan fwyaf o’r cartrefi wedi’i wneud o dan y cynllun hwnnw. Ychwanegodd fod cyfanswm yr amcangyfrif diwygiedig o £3.5m ar gyfer yr holl waith y prosiect bellach yn cael ei ystyried yn rhesymol, gan fod cost cyfalaf y gwaith i bob eiddo wedi cynyddu yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Byddai darparwyr allanol yn ymgymryd â'r gwaith. Cyfeiriodd Aelod at dudalen 25 o'r pecyn adrodd a’r Cronfeydd sydd heb eu Neilltuo. Nododd y bu amrywiad sylweddol yn y ffigur hwn dros y blynyddoedd diwethaf, gan amrywio o £3m mewn rhai blynyddoedd i £300k mewn blynyddoedd eraill. Gofynnodd pam fod cymaint o amrywiad.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid fod Cronfeydd Heb eu Neilltuo yn rhan o'r gyllideb gyffredinol er mwyn delio ag unrhyw bwysau annisgwyl wrth symud ymlaen. Roedd y rhain yn aml yn newid o flwyddyn i flwyddyn, gan ddibynnu ar setliadau'r awdurdod lleol. Er bod dyraniad yn y Gronfa ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, bydd yn cael ei drosglwyddo i'r flwyddyn ariannol nesaf os na fydd angen ei ddefnyddio. Roedd y Cyngor, fel awdurdodau eraill, yn profi cryn dipyn o bwysau ariannol, megis cynnydd mewn costau materol ar gyfer prosiectau a gwariant ychwanegol ar gyfer Agenda Datgarboneiddio 2030, felly efallai y bydd angen y gronfa i roi cefnogaeth ariannol i'r rhain. Daeth i'r casgliad drwy ddweud ei bod yn gronfa amcangyfrifedig a fyddai'n newid yn ôl amser a gofynion.

Gofynnodd Aelod a fyddai trigolion a allai fod wedi dioddef yn gorfforol oherwydd y gwaith a wnaed yn eu heiddo fel rhan o Brosiect Arbed yn cael eu had-dalu'n ariannol drwy daliad digolledu, am gyflyrau'r ysgyfaint er enghraifft.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai hawliadau fel hyn fel arfer yn cael eu gwneud drwy Hawliad Yswiriant, ac nad hyn oedd diben y cynllun a'r cyllid hwn.

Daeth yr Arweinydd â'r ddadl ar yr adroddiad i ben trwy ymddiheuro i'r trigolion yr effeithiwyd arnynt gan y gwaith a wnaed fel rhan o'r Prosiect Arbed yng Nghaerau. Sicrhaodd y byddai'r Cyngor yn gweithio ar Gynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu gyda deiliaid tai ac Aelodau lleol yr ardal o ddechrau'r gwaith newydd hyd at ei gwblhau.

Rhoddodd sicrwydd hefyd i'r Aelodau fod Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn gwbl gefnogol o ariannu'r Prosiect Metro Plus ac yn croesawu'r cynlluniau eraill a amlinellwyd yn y Rhaglen Gyfalaf, megis Ysgol Arbennig Heronsbridge, yr Hyb Plant ym Mrynmenyn a'r Prosiect Fflyd Di-garbon Net.

PENDERFYNIAD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig a geir yn Atodiad A i'r adroddiad.

634. NODI ADRODDIADAU GWYBODAETH

Rhoddodd y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol (a Swyddog Monitro) adroddiad ar yr Adroddiadau Gwybodaeth a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y ddau Adroddiad Gwybodaeth dan sylw, a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad eglurhaol.

Nododd Aelod, mewn perthynas ag adroddiad y Rhaglen Sefydlu Aelodau, y gallai cryn dipyn o'r hyfforddiant yma barhau i gael ei roi dros Teams ac ati, ac roedd yn ymwybodol nad oedd signal band eang da gan rai Aelodau, yn enwedig yn y cymoedd, a bod eraill ddim yn gwbl lythrennog o ran TG. Gofynnodd a allai'r rhwystrau hyn atal rhai Aelodau yn y weinyddiaeth newydd rhag cymryd rhan lawn yn y Rhaglen.

Dywedodd y Swyddog Monitro, o dan y ddeddfwriaeth newydd a fydd yn dod i mewn ym mis Mai, y bydd yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i drefnu cyfarfodydd a sesiynau hyfforddi rhithwir, rhai hybrid, a rhai wyneb yn wyneb o bosibl, ac y bydd gan Aelodau'r offer angenrheidiol i gymryd rhan yn y cyfarfodydd hyn. Byddai'r rhai nad ydynt yn hyderus â chyfarfodydd o bell yn derbyn hyfforddiant i'w galluogi.

Ailadroddodd Aelod sylwadau a wnaeth mewn Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd blaenorol, h.y. ei fod yn teimlo ei bod yn bwysig ymestyn hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys i bob Aelod, ac i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unig.

PENDERFYNIAD: Fod y Cyngor wedi cydnabod cyhoeddiad y dogfennau a restrir yn yr adroddiad.

635. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 4:20pm